

Cyngor Cymuned Llandderfel.

Cyfarfu'r Cyngor Nos Fawrth, Tachwedd 1af 2016 yn Neuadd Llandderfel. Yn bresennol oedd Gary Thomas (cadeirydd), Dewi Pritchard, Gethin Morris, Maldwyn Jones, Eilir Rowlands, Eifion Davies, Iolo Evans, Alwyn Jones, Cyng. Elwyn Edwards a'r clerc.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Tina Davies, Gwenda Morris a Gwenda Evans.

Datgan Buddiant.

Ni chofnodwyd unrhyw fuddiant.

i) Materion vn codi o'r cyfarfod diwethaf.

a) Sedd wag ar Ward Llanybetws.

Derbyniwyd llythyr o ddiddordeb gan Gwynedd Jones, Gelli, Glanrafon. Cytunwyd i'w gyfethol a'i wahodd i'r cyfarfod ym mis Rhagfyr.

b) Biniâu Halen.

Cafwyd adroddiad gan y clerc o'r ohebiaeth ddiweddar rhwng Partneriaeth Penllyn a Chyngor Gwynedd ynglŷn â'r trefniadau biniâu halen. Nid oedd cyfaddawd wedi dod i'r golwg hyd yn hyn ond roedd y cynghorwyr yn dal o'r farn na ddylai'r cynghorau cymuned a thref orfod cymryd unrhyw gyfrifoldebau ychwanegol na thalu am y gwasanaeth yma.

c) Tacluso ym mynwent Llanfor.

Gan nad oedd 3 pris wedi dod i law cytunwyd i ail drafod y mater yn y cyfarfod ym mis Rhagfyr.

ii) Gohebiaeth.

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

a) Cyngor Gwynedd.

i) Derbyniwyd cais i anfon gwybodaeth a fyddai o gymorth i'w arolwg o bobl sy'n cysgu ar y stryd yng Ngwynedd.

ii) Rhaglen Waith yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol ar gyfer mis Tachwedd.

b) Amrywiol.

i) GCGIC – Gwybodaeth am eu cyfarfodydd cymunedol.

ii) Un Llais Cymru – chopi o ddatganiad ysgrifennydd y Cabinet yn cynnig datblygiadau cadarnhaol iawn ar gyfer y sector cynghorau a thref yng Nghymru.

iii) Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru – Siawns i ddeud eich deud am Blismona – gwybodaeth am eu cyfarfodydd cymunedol.

iv) Heddlu Gogledd Cymru – Copi o'r 'Cylchlythyr Gwylio Cyflymder' diweddaraf.

iii) Materion Ariannol.

a) Cytunwyd i dalu anfoneb Partneriaeth Penllyn.

b) Derbyniwyd cais ariannol gan Eisteddfod Gerddol Ryngwladol Llangollen. Cytunwyd i'w drafod gyda gweddill y ceisiadau ariannol ym mis Mawrth.

v) Materion lleol.

a) Twell archwilio wedi malu ar yr A494 rhwng Y Bryn, Bala a phentref Llanfor.

Gofynnwyd i'r clerc rhoi gwybod i'r Asiantaeth Cefnffyrdd bod angen trwsio un o'r tyllau archwilio ar yr A494 rhwng Y Bryn, Bala a phentref Llanfor.